ADRAN YSTADAU STRATEGOL


UCHELGAIS PRIFDDINAS CAPITAL AMBITION


CARDIFF CAERDYDD

**Safle Gwerthu, Trwsio, Cynnal a Chadw Beics**

Morglawdd Bae Caerdydd

# Cyfle Tendro




**Rhaid derbyn pob cynnig dim hwyrach na 27 Ebrill 2018**

This document is available in English / Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg

Gweithio dros Gaerdydd, gweithio gyda'n gilydd
Working for Cardiff, Working together

# ADRAN YSTADAU STRATEGOL

**Cyflwyniad**

Dymuna Awdurdod Harbwr Caerdydd wahodd gweithredwyr a diddordeb i dendro ar gyfer lleoli “uned safle fasnachol dros dro” ar Forglawdd Bae Caerdydd, fel man i gynnal gwasanaeth gwerthu, trwsio a chynnal a chadw beics.

**Cefndir**

Yn dilyn datblygu cyfleusterau cyhoeddus ar Forglawdd y Bae, ynghyd a nbo ar lwybr beicio poblogaidd, cydnabuwyd y byddai gwasanaeth gwerthu a thrwsio beics o fudd i gymudwyr rheolaidd ac i ymwelwyr. Nifer yr ymwelwyr yn fras ar hyn o bryd yw dros 900,000 o ymwelwyr y flwyddyn.

**Lleoliad**

Mae safle posib ar gyfer y lleoliad hwn wedi ei nodi yn barod ar ben deheuol y Morglawdd, fel a ddangosir ar y llun isod.




Gweithio dros Gaerdydd, gweithio gyda’n gilydd
Working for Cardiff, Working together

# ADRAN YSTADAU STRATEGOL

## Telerau Prydles a Gynigir

| | |
|---|---|
| **Cyfnod** | Prydles am gyfnod o 3-5 misoedd (o ddyddiad i gytuno arno). |
| **Safle** | Rhaid i'r prydleswr ddarparu "safle dros dro" a fydd wedyn yn gyfrifol am yr holl drwsio a chynnal a chadw ynghlwm a rhedeg y cyfleuster. |
| **Rhent** | I'w bennu gan y cyflwyniadau tendr |
| **Yswiriant** | Y prydleswr i fod yn gyfrifol am yswirio'r eiddo'n ddigonol trwy gwmni yswiriant sydd wedi ei gymeradwyo gan Y Ddinas a Thrysorydd y Sir |
| **Taliadau** | Y prydleswr i fod yn gyfrifol am dalu ardrethi, taliadau am ddŵr, taliadau trydan ac unrhyw asesiadau eraill a gaiff eu codi ar y safle |
| **Arall** | Y brydles i fod yn amodol ar unrhyw delerau ac amodau eraill y tybia Prif Swyddog Gwasanaethau Cyfreithiol y Cyngor sy'n briodol. |
| **Costau** | Bydd y prydleswr yn gwneud cyfraniad at gostau tirfesur a chyfreithiol rhesymol y Cyngor o £750.00 |

**Cyswllt:**

Tom Griffiths (Tirfesurydd Graddedig)
Ffôn : 02920 873787
E-bost : thomas.griffiths@caerdydd.gov.uk

# ADRAN YSTADAU STRATEGOL

Rydw i/Rydym ni..........................................................wedi darllen yr amodau gwerthu a atodwyd ac yn cynnig drwy hynny, yn amodol ar gytundeb, swm rhent o :
£ ......................................................... (punnoedd) ...................................... (ceiniog)
**(£ : p) y mis ag eithrio TAW**

Rydw i/Rydym ni yn deall ein bod yn cyflwyno'r cynnig hwn ar ein cost ein hunain ac nad yw'r Cyngor wedi ymrwymo i dderbyn unrhyw gynnig.

Rydw i/Rydym ni yn datgan nad ydym yn rhan o gynllun na chytundeb lle :

Byddaf i/Byddwn ni yn hysbysu unrhyw berson arall o swm y cynnig; a/neu

Byddaf i/Byddwn ni wedi gosod swm unrhyw gynnig yn unol â threfniant pennu pris.

Rydw i/Rydym ni yn derbyn fod hawl gan y Cyngor i ddiddymu'r contract ac i adennill gennym swm unrhyw golled sy'n deillio o ddiddymiad o'r fath os y darganfyddir y bu gweithred neu ddiffyg gweithredu pwdr neu dwyllodrus a ddenodd y Cyngor i gytuno ar y contract.

Rydw i/Rydym ni yn cytuno os, cyn derbyn y cynnig hwn, y bydd unrhyw amheuaeth ynghylch swm y cynnig hwn y byddwn yn derbyn cyfle o egluro swm y cynnig neu dynnu'r cynnig yn ôl.

Rydw i/rydym ni yn cytuno y bydd gosod unrhyw amod gennym ar y cynnig hwn neu unrhyw newidiadau heb eu hawdurdodi i'r manylion ddim yn effeithio ar y testun gwreiddiol ond y gall arwain at wrthod y cynnig.

Rydw i/rydym ni yn cytuno y bydd y cynnig yn aros yn agored i'w dderbyn gan y Cyngor ac na chaiff ei dynnu nôl gennym am gyfnod o 28 diwrnod yn dilyn y dyddiad olaf a nodwyd ar gyfer derbyn cynigion neu unrhyw estyniad ar hynny a hysbyswyd.

Rydw i/Rydym ni yn tystio fod hwn yn gynnig bona fide.

Rydwi/Rydym ni yn cytuno i dalu costau'r tirfesurydd o £750.00

**<u>Nid yw'r cynnig hwn yn rhwymo ac fe geidw'r Cyngor yr hawl i wrthod unrhyw gynnig a dderbynnir.</u>**

# ADRAN YSTADAU STRATEGOL

| | |
|---|---|
| **Cyfeiriad** | |
| **Ffôn** | |
| **Enw** | |
| **Llofnod** | |
| **Dyddiad** | |
| **Enw tyst** | |
| **Llofnod tyst** | |
| **Dyddiad** | |
| **Gwybodaeth Cynllun Busnes (atodwch os oes angen mwy o ofod)** | |

Os yw’r cynigydd yn “gorff” neu gymdeithas a ymgorfforwyd, rhaid i ysgrifennydd y cwmni neu gyfarwyddwr a awdurdodwyd yn briodol “neu ymddiriedolwr” arwyddo. Mewn sefyllfa partneriaeth dylai partner lofnodi. Yn achos unigolyn dylai’r perchennog lofnodi.



Gweithio dros Gaerdydd, gweithio gyda’n gilydd
Working for Cardiff, Working together

## ADRAN YSTADAU STRATEGOL

Os yw'r cynigydd yn "gorff neu" gymdeithas a ymgorfforwyd, rhaid i ysgrifennydd y cwmni neu gyfarwyddwr a awdurdodwyd yn briodol "neu ymddiriedolwr" arwyddo. Mewn sefyllfa partneriaeth dylai partner lofnodi. Yn achos unigolyn dylai'r perchennog lofnodi.

**Ni ddylid datgysylltu'r ffurflen gynnig a dylid dychwelyd y ddogfen lawn yn llawn yn yr amlen barod a ddarparwyd at:**

**Thomas Griffiths – Tirfesurydd Gwerthuso Graddedig**
**Ystadau Strategol, Tîm Datblygu Economaidd, Ystafell CY6 (Y Cwrt),**
**Neuadd y Sir, Glanfa'r Iwerydd, Caerdydd CF11 5UW**
**Ffôn: 029 20873559**
**E-bost: Thomas.griffiths@caerdydd.gov.uk**

Os oes angen y ddogfen hon arnoch yn Saesneg yna e-bostiwch y mewnflwch gwerthuso valuation@cardiff.gov.uk

Hefyd mae croeso i chi ymweld â'n gwefan Ystadau Strategol www.cardiffcouncilproperty.com/cy/

*Ymwadiad:*

*1. Mae'r wybodaeth sydd uchod ac yn y ddogfen hon wedi ei rhoi fel amlinelliad cyffredinol yn unig fel canllaw i bartïon â diddordeb ac nid yw'n golygu ei fod yn rhan o gynnig neu gontract.*

*2. Mae pob disgrifiad, mesuriad, cynlluniau, cyfeiriad at gyflwr a chaniatadau angenrheidiol i'w ddefnyddio a'i feddiannu wedi eu rhoi heb unrhyw gyfrifoldeb ac ni ddylai partïon â diddordeb ddibynu arnynt fel datganiadau neu gynrychioliadau ffeithiol, ond dylent fodloni eu hunain drwy archwiliad neu fodd arall o ran cywirdeb pob un ohonynt.*

*3. Nid oes awdurdod gan unrhyw berson cyflogedig gan Gyngor Caerdydd i wneud neu roi sylwadau neu roi gwarantau o unrhyw fath parthed yr eiddo/tir hwn.*

*4. Ceidw'r Cyngor yr hawl i beidio derbyn unrhy gynnig a ddaw i law.*